



**Un Llais Cymru**  
**One Voice Wales**

Cynghorau Cymuned a Thref  
Canllwiau Digidol

Ystyriaethau ar gyfer Cadw Dogfennau

Ionawr 2025

## Cynnwys

Cadw Data ar gyfer Cyngorau Cymru.....	3
Egwyddorion Cyffredinol Cadw Cofnodion .....	3
Gofynion a Chanllawiau Statudol .....	3
Cofnodion Ariannol.....	3
Diogelu Data a GDPR .....	4
Mathau Penodol o Gofnodion.....	4
Cofnodion a Dogfennau Cyfarfod .....	4
Hysbysiadau Cyhoeddus .....	4
Cofrestrau o Fuddiannau Aelodau.....	4
Cynlluniau Hyfforddi .....	4
Adroddiadau Blynnyddol.....	4
Cynlluniau Bioamrywiaeth .....	4
Adroddiadau Llesiant.....	4
Ystyriaethau Ymarferol.....	5
Argymhellion ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref .....	5
Hanes Fersiwn .....	6

## Cadw Data ar gyfer Cyngorau Cymru

Mae gan gyngorau cymuned a thref yng Nghymru gyfrifoldebau sylweddol o ran cadw data, wedi'u hysgogi gan deddfwriaeth sy'n hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd, a chydymffurfio â rheoliadau diogelu data. Nid yw'r cyfrifoldebau hyn yn ymwneud â pha mor hir y mae'n rhaid cadw data yn unig, ond hefyd sut y caiff ei reoli a'i storio.

## Egwyddorion Cyffredinol Cadw Cofnodion

Mae cadw cofnodion da yn hanfodol i gyngorau cymuned, gan fod cofnodion yn darparu tystiolaeth o weithgareddau, yn esbonio penderfyniadau, yn hyrwyddo atebolrwydd, ac yn galluogi gwirio camau gweithredu. Mae cofnodion hefyd yn hanfodol ar gyfer cof corfforaethol ac ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau gwybodaeth.

Mae rheoli cofnodion yn y sector cyhoeddus yn swyddogaeth gorfforaethol graidd ac yn rhwymedigaeth statudol.

## Gofynion a Chanllawiau Statudol

Cyhoeddi yn Electronig: Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i gyngorau cymuned gyhoeddi dogfennau amrywiol yn electronig, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, cyfrifon archwiliedig blynyddol, a chofrestrau o fuddiannau aelodau. Rhaid i'r cofnodion electronig hyn fod ar gael ar wefan y cyngor.

Cadw Dogfennau Gwefan: Dylai fod gan gyngorau weithdrefnau ar gyfer cadw eu gwefannau mewn trefn dda, gyda dogfennau blaenorol wedi'u harchifo am gyfnod rhesymol ond yn hawdd eu cyrraedd o'r dudalen flaen. Er nad yw deddfwriaeth yn nodi amser penodol, mae'n nodi y dylid cadw data am gyfnod rhesymol o amser.

Mynediad i Wybodaeth: Mae gan y cyhoedd yr hawl i gael mynediad at ystod o wybodaeth a gedwir gan gyngorau cymuned. Mae hyn yn cynnwys agendâu cyfarfodydd, cofnodion ac adroddiadau. Rhaid i gyngorau cymuned a thref sicrhau bod y dogfennau hyn yn parhau i fod yn hygyrch.

### Cofnodion Ariannol

Cyfrifon Archwiliedig Blynyddol: Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i gyngorau gyhoeddi eu cyfrifon archwiliedig blynyddol yn electronig. Rhaid i'r rhain barhau i fod yn hygyrch ar wefan y cyngor.

Tryloywder wrth Adrodd: Dylai gwybodaeth ariannol fod ar gael yn hawdd ar wefan y cyngor, gan gynnwys cyfrifon blynyddol, diweddariadau cyllideb, a manylion gwariant.

## Diogelu Data a GDPR

Cydymffurfio â GDPR y DU: Rhaid i gynghorau cymuned gydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) fel y'i gweithredir gan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Storio Diogel: Dylid storio cofnodion yn ddiogel ac yn hawdd eu cyrraedd pan fo angen. Rhaid i gynghorau roi mesurau technegol a threfniadol priodol ar waith i sicrhau diogelwch data.

Hawliau Gwrthrych Data: Fel arfer nid yw cynghorau cymuned a thref yn cadw data helaeth am unigolion ond lle mae unigolion yn rhyngweithio â Chynghorau yna rhaid parchu eu hawliau o ran eu data personol, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at eu data, ei gywiro a'i ddileu.

## Mathau Penodol o Gofnodion

**Cofnodion a Dogfennau Cyfarfod** : Rhaid cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd a dogfennau y cyfeirir atynt yn y cofnodion yn electronig ar ôl y cyfarfod. Dylai'r cofnodion hyn fod ar gael i'r cyhoedd am gyfnod rhesymol.

**Hysbysiadau Cyhoeddus**: Rhaid cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig.

**Cofrestrau o Fuddiannau Aelodau**: Rhaid cyhoeddi'r cofrestrau hyn yn electronig.

**Cynlluniau Hyfforddi**: Mae'n ofynnol i gynghorau cymuned baratoi a chyhoeddi cynlluniau hyfforddi ar gyfer eu haelodau a'u staff.

**Adroddiadau Blynyddol**: Rhaid i gynghorau baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar eu blaenoriaethau, eu gweithgareddau a'u cyflawniadau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad hwn ar wefan y cyngor.

**Cynlluniau Bioamrywiaeth**: Rhaid i gynghorau cymuned baratoi a chyhoeddi cynllun bob tair blynedd yn nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

**Adroddiadau Llesiant**: Mae'n ofynnol i rai cynghorau cymuned a thref mwy (os oedd eu hincwm neu wariant gros o leiaf £200,000 ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol cyn cyhoeddi'r cynllun llesiant lleol ar gyfer eu hardal) gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion llesiant lleol.

## Ystyriaethau Ymarferol

**Archifo:** Dylai cynghorau ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer archifo hen ddogfennau tra'n sicrhau bod rhai cyfoes ar gael yn hawdd o'r brif wefan.

**Hygyrchedd:** Rhaid ystyried anghenion cymunedol, gan gynnwys iaith, cyfathrebu a hygyrchedd, wrth reoli a chyhoeddi data.

**Polisïau Adolygu a Gwaredu:** Dylai cynghorau ddatblygu polisïau ar gyfer adolygu a gwaredu cofnodion nad oes eu hangen mwyach yn ddiogel, er mwyn cydymffurfio ag egwyddorion lleihau data.

**Adolygiad Rheolaidd:** Dylai cynghorau adolygu eu polisïau cadw data yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r deddfwriaeth ddiweddaraf ac arferion gorau.

## Argymhellion ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

- 1. Datblygu Polisi Cadw Data:** Creu polisi ffurfiol sy'n amlinellu pa mor hir y bydd gwahanol fathau o gofnodion yn cael eu cadw, yn unol â gofynion cyfreithiol ac arferion gorau.
- 2. Gweithredu Storio Diogel:** Sicrhau bod yr holl gofnodion, boed yn electronig neu ar bapur, yn cael eu storio'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag mynediad, colled neu ddifrod heb awdurdod.
- 3. Sefydlu Gweithdrefnau Clir:** Datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer sut mae cofnodion yn cael eu creu, eu rheoli, eu storio, eu harchifo, a'u gwaredu.
- 4. Darparu Hyfforddiant i Staff:** Sicrhau bod pob aelod o staff a chynghorydd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cadw data a'u bod wedi'u hyfforddi ar y gweithdrefnau priodol.
- 5. Archwilio Data yn Rheolaidd:** Cynnal archwiliadau rheolaidd o ddata i sicrhau cydymffurfiaeth â'ch polisïau eich hun a chyfreithiau perthnasol.
- 6. Bod yn Wybodus:** Cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu ganllawiau a allai effeithio ar ofynion cadw data.

Drwy gadw at yr egwyddorion a'r canllawiau hyn, gall cynghorau cymuned a thref yng Nghymru reoli eu cyfrifoldebau cadw data yn effeithiol, gan sicrhau cydymffurfiaeth a thryloywder. Mae'n ddoeth ceisio arweiniad gan adnoddau megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac Un Llais Cymru i gefnogi arferion rheoli data.

## Hanes Fersiwn

	Dyddiad	Cyhoeddwr	Rheswm	Dyddiad Adolygu
V1	14/2/25	Rheolydd Prosiect Digidol	Fersiwn Cychwynnol	14/2/26



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**